Atodiad 1:

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

2023-2024

Drafft Dim Statws

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English.

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2023 - 2024

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir: fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol	4
- Cwynion	5
- Recriwtio	8
- Sgiliau Cymraeg	9
- Hyfforddiant Cymraeg	12
- Cyrsiau Cymraeg	12
Cyflawniadau a Chydymffurfio	16
Y Camau Nesaf	36
Cysylltwch â ni	36

Cyflwyniad

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac mae’n ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i wella’r gwasanaeth hwnnw.

Yn ystod 2015, cawsom Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu sydd wedi’i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r safonau'n cael eu grwpio yn 5 categori:

- Darparu Gwasanaeth
- Llunio Polisi
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Lunio, a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy’n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo’r Gymraeg a hwyluso’r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145, 146).
- Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau, ac yna ei gyhoeddi ar ein gwefan. (Safonau 158, 164, 170).

Gwnaethom hefyd gyhoeddi Strategaeth Hybu 5 mlynedd ar gyfer 2022-27 fel rhan o'r broses gydymffurfio. Mae hon ar gael ar ein gwefan. Mae manylion y cynnydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Cefndir – fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol gyflawniadau 2022 - 2023

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau staff.

Mae’r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy’n fesur statudol cenedlaethol ac mae’n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy’n cynorthwyo’r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae’r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella’r Cyngor a thrwy gynlluniau gwasanaethau, sy’n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - www.bromorgannwg.gov.uk

Yn ogystal â hyn, mae’r Cyngor yn cyhoeddi’r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn y pedwar maes canlynol yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg:

- Cwynion
- Recriwtio
- Sgiliau’r Gymraeg
- Hyfforddiant Cymraeg

Rydym hefyd yn adrodd ar weithgareddau eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ogystal â'n cyflawniadau o dan ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

Cwynion

Safonau 158 (2) 164 (2) 170 (2d)

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion sy'n dod i law sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Am y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cawsom chwe chwyn oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg	3
Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Swyddog y Gymraeg	2
Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i system gwyno gorfforaethol y Cyngor	1

Cwynion a wnaed drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Rydym wedi derbyn tair cwyn drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Nid ymchwiliad swyddogol yw un o'r rhain, ond awgrym i'w ystyried ymhellach. Nid ydynt yn cymryd unrhyw gamau pellach ar yr ail gŵyn, ac mae'r drydedd yn mynd rhagddi o hyd.

Dyddiad derbyn	Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd

27/06/2023	Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r toiledau cyhoeddus yn Lloches y Gorllewin, Ynys y Barri. Doedd toiledau'r dynion ddim yn gweithio a chafodd dynion gyfarwyddyd i ddefnyddio toiledau'r merched i fyny'r grisiau yn lle. Cafodd yr 'wo' o'r gair 'Womens' ei guddio felly roedd yn darllen 'mens'. Ni ddarparwyd fersiwn Gymraeg o 'Mens' a gadawyd y gair 'Menywod' ar yr arwydd yn Gymraeg.	Ymatebodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg a gadarnhaodd na fyddai camau pellach yn cael eu cymryd gan fod y Rheolwr Gweithredol wedi cydnabod y diffyg cydymffurfio, wedi unioni'r broblem, ac wedi cadarnhau y bydd yn cymryd camau yn y dyfodol fel caffael arwyddion dros dro y gellir eu hailddefnyddio a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
08/02/2024	Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn ymgynghoriad cyllideb 2024/25.	Mae'r ymchwiliad hwn yn mynd rhagddo.
28/02/2024	Nid hysbysiad swyddogol am gŵyn oedd hwn nac ymchwiliad, ond cynrychiolydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cysylltu ynglŷn â 'what3words' uniaith Saesneg ar arwyddion Llwybr Arfordir Cymru. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn ymholiad amdanynt ac wedi bod yn delio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, ond cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw'r arwyddion.	Mae'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Adfywio a Chynllunio wedi ymateb i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i’r Cyngor

Rydym wedi derbyn tair cwyn gan aelodau o'r cyhoedd. Daeth un gŵyn drwy system gwyno gorfforaethol y Cyngor a chafodd dwy gŵyn eu e-bostio’n uniongyrchol at Swyddog y Gymraeg.

Dyddiad derbyn	Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd
15/05/2023	Roedd y gŵyn yn ymwneud â swyddog parcio yn gwatwar yr aelod o'r cyhoedd ac yn honni nad oedd angen iddo siarad Cymraeg.	Edrychodd y Rheolwr Gorfodi ar y mater fel cwyn Cam 1.
08/02/2024	Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r fersiwn Gymraeg o wefan y ganolfan hamdden a chyfathrebu â Legacy Leisure.	Cynhaliodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Hamdden gyfarfod gyda chynrychiolwyr Legacy Leisure/Parkwood a ddarparodd gynllun gweithredu i wella'r Gymraeg. Mae cynnydd ar y camau gweithredu wedi’i rannu a nodwyd gwelliannau.
06/01/2024	Gwnaed y gŵyn hon drwy'r system gwyno gorfforaethol ac mae'n ymwneud ag arwydd ysgol uniaith Saesneg.	Mae'r arwydd wedi cael ei dynnu a'i gywiro.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar gamau gweithredu a argymhellwyd yn sgil ymchwiliadau eraill.

Recriwtio

Safonau 154, 170 (ch)

Rhaid i ni adrodd am nifer y swyddi newydd a gwag sydd wedi'u categoreiddio'n Gymraeg hanfodol a dymunol.

Mae ein proses ymgeisio am swydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Rydym hefyd wedi ceisio hysbysebu ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar wefannau Cymraeg penodol yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid yn Dysgu Cymraeg y Fro a Menter Bro Morgannwg i rannu ein swyddi gwag.

Fel rhan o'r broses recriwtio, a gofyniad Safon 136, rhaid asesu pob swydd wag am angen sgiliau Cymraeg. Ein nod yw categoreiddio pob swydd wag newydd fel un Cymraeg dymunol o leiaf.

Cyfanswm nifer yr hysbysebion sydd wedi'u cofnodi	3,806	99.3%
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	25	0.7%
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	3,781	99.3%
Sgiliau Cymraeg i'w dysgu wrth benodi i swydd	0	0.0%



Mae'r rhan fwyaf o rolau Cymraeg ar gyfer swyddi athrawon Cymraeg neu rolau eraill o fewn ysgolion Cymraeg.

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg seminar ar y safonau recriwtio ar 5 Gorffennaf 2023 a fynychwyd gan Swyddog y Gymraeg a staff Cydraddoldeb. Mae adroddiad briffio ar y seminar wedi'i roi i'r tîm arwain strategol. Roedd yn esbonio'r safonau perthnasol, yn rhestru’r arferion sy'n arwain at recriwtio llwyddiannus, a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer lle y gallem wella ein prosesau recriwtio. Rydym yn parhau i weithio gyda staff Adnoddau Dynol i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol.

Sgiliau Cymraeg

Safon 170 (2a)

Mae'n rhaid i ni fonitro ac adrodd ar nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.

Mae'r dangosydd hwn yn cael ei fesur trwy hidlo data staff o Fusion, y platfform adnoddau dynol newydd. Gall staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a diweddaru'r wybodaeth hon yn eu manylion personol ar Fusion. Mae porth gweithwyr Fusion yn cipio a chofnodi sgiliau iaith y staff. Mae hyn wedi dileu'r angen am arolwg sefydliad cyfan. Mae Adnoddau Dynol wedi cyfathrebu drwy e-bost a Staffnet yr angen i ddiweddaru gwybodaeth bersonol. Rydym yn cadw cofnodion staff sydd â sgiliau Cymraeg o dan Safon 151.

Sgiliau staff ar draws y pedwar categori (Darllen, Ysgrifennu, Deall, Siarad)

Mae hyn yn dangos cyfanswm nifer y staff yn y chwe chyfarwyddiaeth sydd wedi nodi Sylfaenol, Cymwys, Da, Rhugl, Dim neu Heb Gofnodi ym mhob un o'r pedwar categori (hy 'sylfaenol' ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall a siarad).





Sgiliau staff – darllen

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Dim	Heb ei gofnodi	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau - Ysgolion	186	31	25	67	151	2467	2927
Dysgu a Sgiliau	60	5	5	23	102	169	364
Gwasanaethau Cymdeithasol	135	11	7	26	298	351	828
Amgylchedd a Thai	108	7	5	20	328	360	828
Adnoddau	76	6	7	17	155	125	386
Lle	19	1	3	7	51	29	110
Cyfanswm	584	61	52	160	1805	3501	5443

Sgiliau staff – ysgrifennu

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Dim	Heb ei gofnodi	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau - Ysgolion	174	30	17	63	173	2470	2927
Dysgu a Sgiliau	52	4	7	21	110	170	364
Gwasanaethau Cymdeithasol	104	7	8	24	331	354	828
Amgylchedd a Thai	85	5	3	17	356	362	828
Adnoddau	54	6	6	14	179	127	386
Lle	14	1	2	7	57	29	110
Cyfanswm	483	53	43	146	1206	3512	5443

Sgiliau staff – siarad

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Dim	Heb ei gofnodi	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau - Ysgolion	217	29	19	68	129	2465	2927
Dysgu a Sgiliau	71	5	4	24	93	167	364
Gwasanaethau Cymdeithasol	167	8	8	24	270	351	828
Amgylchedd a Thai	117	6	4	20	324	357	828
Adnoddau	83	5	5	16	153	124	386
Lle	25	0	3	7	46	29	110
Cyfanswm	680	53	43	159	1015	3493	5443

Sgiliau staff - deall

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Dim	Heb ei gofnodi	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau - Ysgolion	232	31	22	72	120	2450	2927
Dysgu a Sgiliau	82	7	4	24	81	166	364
Gwasanaethau Cymdeithasol	186	7	10	29	253	343	828
Amgylchedd a Thai	151	6	6	21	305	339	828
Adnoddau	103	6	6	21	126	124	386
Lle	30	1	2	8	41	28	110
Cyfanswm	784	58	50	175	926	3450	5443



Mae'r ffigurau hyn i gyd yn dibynnu ar aelodau staff yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg yn eu cyfrif Fusion ac felly efallai na fyddant yn gyflawn. Rydym yn gweithio gydag Adnoddau Dynol i atgoffa'r holl staff i ddiweddaru eu manylion personol a'u sgiliau Cymraeg yn eu cyfrifon Fusion. Byddwn yn atgoffa pawb o ymgyrch hyrwyddo'r Gymraeg sydd ar y gweill ac yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cymraeg Gwaith i sicrhau bod staff ar gyrsiau Cymraeg yn diweddaru eu sgiliau i'r lefel briodol.

At ei gilydd, mae 12.9% o weithlu'r Cyngor wedi nodi sgiliau Cymraeg, yn amrywio o sylfaenol i rugl. O'r gweithlu sydd wedi ymateb i'r hunanasesiad, nododd 35.4% o'r gweithlu sgiliau siarad Cymraeg cymwys, da neu rugl. Mae hyn yn uwch na'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 o drigolion Bro Morgannwg sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 11.5%.

Hyfforddiant Cymraeg

Safon 170 (2b)

Rhaid i ni adrodd ar nifer y staff sy’n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel neu radd o hyfedredd.

Dan Safon 128, mae’n rhaid i’r Awdurdod gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol os ydynt hefyd yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Iechyd a diogelwch ar gyfer rheolwyr
- Sefydlu corfforaethol
- Rheoli perfformiad
- Cwrs sefydlu rheoli corfforaethol

O'r cyrsiau a gynigir yn Gymraeg, ni ofynnwyd am unrhyw un yn Gymraeg gan aelodau o staff yn yr adrannau Datblygu a Dysgu Sefydliadol; Codi a Chario na’r Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r herwydd, roedd presenoldeb yn 0% ar gyfer staff a oedd yn cwblhau'r cyrsiau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg Gwaith

Dechreuodd y Cydlynydd Cymraeg Gwaith ym mis Medi 2022 ac mae'n parhau i ddarparu dosbarthiadau ar bob lefel drwy gydol yr wythnos, yn ogystal â sesiynau blasu byr, digwyddiadau cymdeithasol, a boreau coffi wythnosol ar Zoom. Lansiodd y Cydlynydd Cymraeg Gwaith dudalen Staffnet, Yr Hwb, lle mae newyddion, digwyddiadau, awgrymiadau a manylion y cyrsiau'n cael eu rhannu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r Cydlynydd Cymraeg Gwaith yn rhannu newyddion o ganolfan Dysgu Cymraeg y Fro ym mhob dosbarth yn ogystal ag ar dudalen Yr Hwb. Bu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol eleni gan gynnwys nosweithiau cyri a chwis, ac roedd dysgwyr o bob rhan o'r cyngor ar bob lefel yn bresennol.

Yn 2023/24, ymunodd y Cydlynydd Cymraeg Gwaith â swyddogion Cyfathrebu, Datblygu a Dysgu Sefydliadol, a Swyddog y Gymraeg i weithio ar ymgyrch ar draws y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg, cyrsiau Cymraeg a safonau'r Gymraeg ymhlith staff.

Ym mis Mawrth 2024, roedd 48 aelod o staff ar gwrs Cymraeg Gwaith:

Lefel	**Nifer o bobl**
Mynediad	19
Sylfaen	17
Canolradd	4
Uwch	4
Glowyi	4

Gwahoddwyd dysgwyr a gwblhaodd gwrs neu arholiad yn 2023/24 i gyflwyniadau ym mis Medi a mis Rhagfyr yn Swyddfa'r Arweinydd i dderbyn tystysgrifau a mwynhau digwyddiad gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Tystebau dysgwyr:

> "Yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bwysig dysgu Cymraeg yn enwedig wrth weithio mewn llywodraeth leol."
>
> "Mae dysgu Cymraeg ochr yn ochr â'ch swydd llawn amser yn bosibl gyda chyrsiau Cymraeg Gwaith, gan fod y sesiynau ar-lein yn gwneud y cwrs yn hygyrch."
>
> "Mae teulu fy nhad yn siaradwyr Cymraeg, a dyna wnaeth fy ysbrydoli i ddechrau'r cyrsiau Cymraeg Gwaith dair blynedd yn ôl. Gallaf nawr gynnal sgyrsiau gyda fy nheulu sy'n siarad yn rhugl."
>
> "Rydw i wedi mwynhau fy sesiynau Cymraeg Gwaith yn fawr dros y flwyddyn ddiwethaf."
>
> "Rwyf hefyd wedi bondio gyda fy ffrindiau cwrs, gan ffurfio cyfeillgarwch â phobl sy'n gweithio ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth na fyddwn fel arfer yn dod i gysylltiad â nhw o fewn fy ngwaith o ddydd i ddydd."

Roedd rhai aelodau o staff yn parhau i ddysgu Cymraeg yn y gymuned gyda Dysgu Cymraeg y Fro. Mae'r cyrsiau hyn yn dal i gael eu hariannu'n llawn, a gall staff barhau i fynychu yn ystod amser gwaith. Dewisodd rhai staff aros mewn dosbarthiadau cymunedol oherwydd cyflymder astudio arafach, gan eu bod yn gyfarwydd â'u dosbarth a'u cyd-ddisgyblion presennol, neu oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Ar hyn o bryd mae 12 aelod o staff yn dysgu Cymraeg yn y gymuned gyda Dysgu Cymraeg y Fro:

Lefel	Nifer o bobl
Mynediad	3
Sylfaen	3
Canolradd	3
Uwch	2
Glowyi	1

Mae nifer o staff hefyd wedi mynychu sesiynau Sadwrn Siarad yng Nghanolfan Ddysgu Palmerston i ymarfer eu Cymraeg sgyrsiol, cwrdd â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg eraill, a mynychu sesiynau adolygu cyn arholiadau.

Dysgu Cymraeg y Fro – dysgwyr yn y cymuned

Bu cynnydd yn nifer y cofrestriadau yn 2023/24 ar gyfer Dysgu Cymraeg y Fro.

Mae nifer y dysgwyr ar bob lefel wedi cynyddu hefyd. Mae hyn yn awgrymu bod dysgwyr yn symud ymlaen i lefelau uwch, yn ogystal â dysgwyr newydd yn ymuno â chyrsiau ar lefelau sy'n briodol i'w gallu Cymraeg presennol.

Mae'r tabl hwn yn dangos canran y dysgwyr ar bob lefel:

Lefel	Canran - Cynnydd
Mynediad	29%
Sylfaen	41%
Canolradd	Dim newid
Uwch	19%
Glowyi	57%

Mae nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau hefyd wedi cynyddu. Gweler cynnydd o 74% yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll yr arholiad Lefel Mynediad ym mis Mehefin 2023 o'r flwyddyn flaenorol.

Cyflawniadau a Chydymffurfio

Wefan

Mae golygydd y wefan yn atgoffa am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir diweddaru tudalennau Saesneg, gan sicrhau bod y wefan yn gwbl ddwyieithog.

Mae adolygiad o dudalennau gwe hanesyddol ar y gweill gan dîm golygydd y we i sicrhau bod pob tudalen, dewislen a ffurflen yn gwbl weithredol ac wedi eu cyfieithu'n gywir.



Cyfrathebu

Mae Staffnet+ yn dwyieithog ac ar gael i staff ar ddyfeisiau personol gan ganiatáu mynediad at wybodaeth am eitemau newyddion mewnol, slipiau cyflog, swyddi gwag mewnol, a rhai polisïau.

Mae'r Prif Weithredwr yn anfon neges wythnosol a chrynodeb o newyddion i'r holl staff ar ddiwedd pob wythnos. Anfonir hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn anfon e-byst rheolaidd at holl staff Bro Morgannwg gyda rhybuddion a newyddion. Mae’r rhain yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg.



Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol

Mae prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn ogystal a chyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram eraill, yn cael eu gweithredu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae 141 dilynwyr gyda'r cyfrif Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Mae 651 dilynwyr gyda'r cyfrif Cyngor Bro Morgannwg ar X (Twitter).

Canolfan Gyswllt a Phrif Dderbynfeydd

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig opsiwn i bob galwr wneud ei ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfanswm nifer y galwyr i’r ganolfan alwadau a ddefnyddiodd yr opsiwn hwn yn ystod 2023-24 oedd 716, sy’n gostwng oddi ar 2022/23 (1749). Mae galwadau Cymraeg yn ystod 2023/24 yn cynrychioli tua 0.5% o gyfanswm y galwadau a wnaed (134,354).

Mae nifer y staff dwyieithog yn y ganolfan gyswllt wedi amrywio rhwng 2 a 5 drwy gydol y flwyddyn, sef tua 11% o'r holl gynrychiolwyr gwasanaeth cwsmeriaid. Mae recriwtio a chadw staff dwyieithog wedi bod yn anodd, ac rydym yn archwilio llwybrau recriwtio a chyfleoedd newydd fel rhannu staff ag awdurdodau eraill. Mae recriwtio staff dwyieithog yn flaenoriaeth ar gyfer 2023/24.

Ar gyfartaledd, arhosodd galwyr a oedd yn defnyddio'r opsiwn iaith Gymraeg yn 2023/24 am 293 eiliad, sy’n gynnydd o’r 257 eiliad yn 2022/23. Mae hyn yn is na’r cyfartaledd cyffredinol o 342 eiliad ar draws y ganolfan alwadau, sydd hefyd wedi cynyddu o 327 eiliad yn 2022/23

Mae'r brif dderbynfa'n cael ei staffio’n ddyddiol gan gynrychiolwyr gwasanaethau cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

Safonau Llunio Polisi

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg arweiniad ac adnoddau pellach am y Safonau Llunio Polisi, yn dilyn seminar a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023.

Rydym wedi llunio ein nodiadau cyfarwyddyd ein hunain ar y Safonau Llunio Polisi sydd ar gael i'r holl staff, rheolwyr ac arweinwyr.

Prif egwyddor y Safonau Llunio Polisi yw dangos ymdrech gydwybodol i asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Er mwyn ein helpu i gydymffurfio, rydym wedi ychwanegu adran newydd at ein ffurflen ymgynghori ac ymgysylltu yn ogystal â chwestiynau asesu’r effaith ar y Gymraeg at ein ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Enghraifft:

> Yn ddiweddar, ymgynghorodd yr adran Gynllunio ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 10 wythnos rhwng Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLlN ar Adnau, sef cam nesaf y broses, bydd papur cefndir Cymraeg yn cael ei baratoi.
>
> Roedd yr ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog, ond gwnaed pob un o'r 3,188 o sylwadau yn Saesneg.
>
> Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar y Gymraeg. Roedd hwn yn gwestiwn gorfodol ar-lein ac yn ddewisol i'r rhai a oedd yn llenwi ffurflen bapur. Roedd cyfanswm o 1,044 o sylwadau yn cynnwys rhyw fath o ymateb. O'r rhain, ymatebodd 84% gyda naill ai dim sylw, nad oedd unrhyw effaith neu nad oeddent yn ystyried bod y cwestiwn yn berthnasol. Dywedodd 8% arall o'r ymatebion eu bod yn ansicr a fyddai unrhyw effaith. Dim ond 8% o'r ymatebwyr oedd o'r farn y byddai effaith ar y Gymraeg - a phob un yn mynegi y byddai hyn yn effaith negyddol. Mae'r pryderon a fynegwyd wedi'u categoreiddio i bedair thema allweddol, sydd wedi'u rhestru isod:
>
> - Gallai cynnydd yn y boblogaeth olygu bod pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo gan wanhau hunaniaeth pentref.
> - Mae diffyg Ysgolion Cymraeg yn darparu ar gyfer datblygiad yn yr ardal.
> - Cymuned a manwerthu cyfyngedig i gefnogi'r Gymraeg.

- Bydd datblygiad yn cael effaith negyddol ar dreftadaeth a'r amgylchedd, a fyddai'n cael effaith ddilynol ar y Gymraeg.

Bydd y papur cefndir Cymraeg yn ystyried ac yn ymateb i'r pryderon am y Gymraeg.

Safonau Recriwtio

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg seminar gyngor arall ym mis Gorffennaf 2023 ar y Safonau Recriwtio. Rydym wedi llunio ein nodiadau cyfarwyddyd ein hunain ar y Safonau Recriwtio ac wedi rhannu'r rhain gyda chydweithwyr yn Adnoddau Dynol i sicrhau bod arferion recriwtio Bro Morgannwg yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol.

Mae’r canllawiau yn esbonio'r safonau perthnasol, yn rhestru’r arferion sy'n arwain at recriwtio llwyddiannus, ac mae’n gwneud awgrymiadau ar gyfer lle y gallem wella ein prosesau recriwtio.

Cytundeb Cyfieithu

Mae gan y Cyngor gontract gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer yr holl waith cyfieithu Cymraeg drwy eu tîm Caerdydd Ddwyieithog. Mae staff y Fro yn defnyddio porth ar Staffnet i anfon dogfennau i'w cyfieithu a gwneud ceisiadau am gyfieithu ar y pryd.

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cafodd 3,632 o ddogfennau eu cyfieithu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg sydd 89 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cyfieithwyd cyfanswm o 2,850,081 o eiriau yn ystod y cyfnod hwn sy'n ostyngiad o 1% ar y flwyddyn flaenorol.



Y gost o gyfieithu'r dogfennau i'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 oedd £213,758.26. Mae hyn £14,438.97 yn llai na 2022/23.



Mae gennym ddyletswydd ar draws y Cyngor i leihau costau, ac yn anffodus, mae'r gyllideb cyfieithu Cymraeg yn gost sylweddol. Bu gostyngiad eleni sy'n awgrymu bod staff yn fwy cydwybodol wrth anfon eitemau i'w cyfieithu neu hyd yn oed yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Rydym yn hyderus ein bod yn bodloni'r Safonau Cymraeg perthnasol o ran cyfieithu.

Maes sydd wedi cynyddu yw cyfieithu ar y pryd. Mae'r gost ar gyfer hyn yn 2023/24 wedi cynyddu i £2659.64 o £875 yn 2022/23. Mae hwn yn gynnydd o 67.1%. Mae cyfieithu ar y pryd bellach yn cynrychioli dros 1% o'r costau cyfieithu. Er ei bod yn

gadarnhaol gweld mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau nad ydym yn colli'r arbedion sydd wedi'u gwneud yn y gyllideb gyfieithu. Mae angen i ni sicrhau bod staff ac aelodau'r cyhoedd yn gallu manteisio ar gyfarfodydd yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni Safonau'r Gymraeg, tra'n ystyried arbedion ariannol.

Mae'r siart hon yn dangos sut mae costau cyfieithu ar y pryd wedi cynyddu o sero ym mhob chwarter yn 2021/22.



Mae cyfanswm y tâl am gyfieithu i'r Gymraeg gan gynnwys dogfennau a chyfieithu ar y pryd wedi gostwng o 2022/23 i 2023/24, ond mae cyfran y cyfieithu ar y pryd wedi cynyddu:



Gwiriwr sillafu a throedynnau e-bost Cymraeg

Mae holl staff y Cyngor wedi derbyn copi o 'Cysgeir' ar eu cyfrifiaduron. Mae’r fersiwn ddiweddaraf o'r feddalwedd hon wedi'i osod ar holl gyfrifiaduron y cyngor sy'n galluogi staff i gyfathrebu'n haws yn Gymraeg ac i deimlo'n hyderus am eu gramadeg. Cafodd hyn ei hyrwyddo eto yn ystod Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.

Rydym wedi trefnu i holl staff y cyngor gael troedyn dwyieithog gyda’u teitlau swydd a chael negeseuon allan o’r swyddfa dwyieithog. Ychwanegwyd logo amlwg hefyd at enwau’r rhai hynny sy’n rhugl yn y Gymraeg a logo arall i nodi aelodau staff sy’n dysgu Cymraeg. Yn ogystal, mae staff a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn pin i nodi eu sgiliau pan fyddant yn y swyddfa.

Cyfleusterau

Mae'r tîm Cyfleusterau wedi cynnal adolygiad o arwyddion ar draws adeiladau'r Cyngor a’i feysydd parcio. Maen nhw eisiau sicrhau bod pob arwydd dwyieithog yn gywir.

Mae'r tîm wedi gwirio a diweddaru arwyddion yn y Swyddfeydd Dinesig, Swyddfeydd y Dociau, a Depo’r Alpau. Maent wedi adolygu arwyddion allanol mewn meysydd parcio a chrëwyd arwyddion dros dro newydd i gyd-fynd ag arolwg Estyn.

Ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Nodwyd Dydd Gŵyl Dewi gyda chennin Pedr a sgwrs Gymraeg yn nerbynfa’r Swyddfeydd Dinesig. Rhannwyd ryseitiau Cymraeg a manylion cyrsiau Cymraeg Gwaith. Cynhaliodd Cyngor Tref y Barri ddigwyddiad ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi yn Sgwâr y Brenin, y Barri.

I nodi Diwrnod Hawliau’r Gymraeg ym mis Rhagfyr, gwnaethom rannu cynllun ‘Defnyddia dy Gymraeg’ Comisiynydd y Gymraeg, sy’n annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg.

Mwy Na Geiriau

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu pum mlynedd Mwy na Geiriau yn 2022. Rydym wedi defnyddio hyn fel sail i'n cynllun gweithredu ein hunain. Mae hyn wedi cael ei ystyried a'i drafod gan gydweithwyr yn Cydraddoldeb ac yn Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2023/24.

Ein nod yw cwblhau nifer o gamau gweithredu o gynllun gweithredu Mwy na Geiriau drwy ymgyrch hyrwyddo'r Gymraeg eleni, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg, annog mwy o staff i ddilyn cwrs Cymraeg Gwaith neu gwrs byr ar-lein, a sicrhau bod staff yn diweddaru eu sgiliau Cymraeg ar Fusion. Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn hyrwyddo modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg a chyrsiau Cymraeg drwy gylchlythyr y sector.

Dysgu Cymraeg y Fro

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cyflwyno gweithgareddau ar ran Cyngor Bro Morgannwg ac wedi'u rhestru'n amlwg yng nghynllun gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Dysgu Cymraeg y Fro wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer siaradwyr Cymraeg, teuluoedd a dysgwyr ym Mro Morgannwg yn 2023/24. Cynhelir y rhain drwy gydol y flwyddyn i nodi Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, y Pasg, y Nadolig a'r haf. Cynhelir rhai digwyddiadau

ar-lein dros Zoom, ac mae rhai yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Palmerston yn y Barri neu leoliadau eraill yn y Fro.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn cael eu hyrwyddo gan y Cydlynydd Cymraeg Gwaith ar gyfer staff y Cyngor.

Dyma amrywiaeth o ddigwyddiadau o'r flwyddyn hon:



Mae Dysgu Cymraeg y Fro hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth i staff sy'n ymgymryd â chyrsiau Cymraeg Gwaith. Mae hyn yn cynnwys cymorth gweinyddol ar gyfer hunan-astudio, dosbarthiadau adolygu, ac ymarfer ar gyfer arholiadau. Mae gan ddysgwyr Cymraeg Gwaith fynediad at yr un cyfleusterau a darpariaeth â dysgwyr yn y gymuned ac mae'r cyfleoedd i gwrdd â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill yn amhrisiadwy.

Menter Bro Morgannwg

Mae Menter Bro Morgannwg yn bartner gwerthfawr i Gyngor Bro Morgannwg wrth ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau Cymraeg i bobl ar draws y sir.

Mae ganddynt gyfrifoldeb am nifer o gamau gweithredu yn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ac rydym yn ddiolchgar am bopeth a wnânt i gyrraedd y targedau hyn o dan gyfyngiadau ariannol tynn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn niweddariad 2023/24 o gynllun gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Crynodeb o'r allbwn a'r niferoedd:

Gweithgareddau	**Nifer o weithgareddau**	**Nifer o bobl**
Gwyl Fach y Fro	1	8,500
Gweithgareddau plant	114	2,020
Gweithgareddau pobl ifanc (age 11-25)	5	323
Gweithgareddau teulu	86	2,203 (1,261 plant 942 oedolion)
Gweithgareddau oedolion	32	970

Teuluoedd a phlant

Elfen allweddol o'r rhaglen ymgysylltu â theuluoedd cyn ysgol yw'r sesiynau Amser Stori mewn llyfrgelloedd ar draws y sir. Mae Menter hefyd wedi trefnu i benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol ddod i sesiynau i ddechrau cyflwyno'r syniad o addysg Gymraeg.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys Bygi Heini, helfa wyau Pasg yn Cosmeston, gweithgareddau chwarae yn y gaeaf yn Cosmeston, 'parti yn y parc' yn y Bont-faen, a phartïon Nadolig mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Ar gyfer plant oed cynradd, mae cynllun chwarae agored Bwrlwm wedi parhau i redeg yn ystod gwyliau'r ysgol mewn gwahanol leoliadau ar draws y sir. Fe wnaeth dros 830 o blant elwa ar sesiynau Bwrlwm yn 2023/24.

Mae Menter yn cydweithio â'r Urdd ar weithgareddau chwaraeon ar gyfer plant ysgolion cynradd, ac mae’n cynnal chwe chlwb gyda dros 1,300 o gyfranogwyr.

Bu Menter hefyd yn cynnal cyfres o weithgareddau cyn Gŵyl Fach y Fro gan gynnwys gweithdai graffiti a sesiynau dawns. Unwaith eto, rhoddodd y rhain gyfle i blant ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol a chwrdd â phlant o ysgolion eraill.

Pobl Ifanc

Yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol, nid yw'r Cyngor wedi gallu cynyddu’r cyllid ac mae costau gweithgareddau wedi cynyddu. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc wedi bod yn llai cynhwysfawr na’r blynyddoedd blaenorol. Mewn ymateb, mae Menter wedi cydweithio â sefydliadau eraill i wneud y mwyaf o'r hyn y gellir ei gyflawni i bobl ifanc.

Mae Menter wedi cydweithio â phartneriaid eraill fel y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd i gynnal gweithgareddau yng Nghlwb Ieuenctid y Barri.

Darparodd Gŵyl Fach y Fro gyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i ddisgyblion Blwyddyn 12/13 o Ysgol Bro Morgannwg, yn ogystal â llwyfan i berfformwyr ieuenctid. Bu Mentrau Iaith Rhanbarthol yn cydweithio i hyrwyddo cyfres o gigs ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd. Roedd band o Ysgol Bro Morgannwg ymhlith y perfformwyr.

Mae Menter wedi gweithio gydag Ysgol Bro Morgannwg ar ddiwrnodau blasu a ffeiriau gyrfaoedd i hyrwyddo gyrfaoedd Cymraeg a gwerth y Gymraeg yn y gweithle.

Oedolion

Yn ogystal â'r prif ddigwyddiad cymunedol, Gŵyl Fach y Fro, cynhaliwyd pum gig ar gyfer artistiaid o Gymru mewn lleoliadau amrywiol ar draws Bro Morgannwg, gan ddenu dros 700 o bobl. Yn sgil cefnogaeth gan Gyngor Tref y Barri, cynigiwyd tocynnau am ddim i ddysgwyr Cymraeg. Mae Menter wedi llwyddo i gysylltu â threfnwyr Glastonbarry i sicrhau y bydd cerddoriaeth Gymraeg yn rhan o ddigwyddiad 2024.

Drwy gydweithio â Menter Caerdydd a Dysgu Cymraeg y Fro, mae Menter wedi gallu parhau i ddarparu ystod o ddosbarthiadau a gweithgareddau i oedolion ym Mro Morgannwg. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a gwibdeithiau, dosbarthiadau ar-lein, boreau coffi rhithwir ac wyneb yn wyneb, a sgyrsiau misol (Sgwrs y Mis). Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu o grantiau'r Loteri Genedlaethol

Gweithiodd Menter hefyd gyda'r Ford Gron yn y Bont-faen i drefnu dathliadau Mari Lwyd, gyda dros 100 o bobl yn bresennol

Ysgolion

Mae ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mro Morgannwg yn parhau i gyfrannu at hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc. Mae lefel gref o ymgysylltu â chynllun Siarter Iaith, sy'n gadarnhaol iawn o ystyried nad yw'n orfodol. Mae pob ysgol yn y Fro yn cymryd rhan naill ai yn y cynllun Cymraeg Campws neu’r Siarter. Bro Morgannwg sydd â'r nifer uchaf o ysgolion sydd wedi derbyn gwobrau Aur ac Arian yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Ysgolion Cyfrwng Saesneg

- Mae gan saith ysgol gynradd wobr Efydd neu Arian.
- Mae gan ddwy ysgol uwchradd wobr Efydd, mae gan un Arian, ac mae gan un Aur.

Ysgolion Cymraeg

- Mae gan un ysgol wobr Efydd, pump ag Arian, mae gan un Aur.

Bu tair ysgol cyfrwng Cymraeg (Ysgol Bro Morgannwg, Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Pen-y-Garth) ac un o'n hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, Tregatwg, yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2023 yn Llanymddyfri.

Ysgol Gynradd Tregatwg yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai 2023:

Un o gorau o Ysgol Bro Morgannwg yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd:

Symudodd Ysgol Sant Baruc i'w hadeilad newydd ar Lannau Dŵr y Barri ym mis Ebrill 2023. Mae'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Morgannwg wedi cael ei chymeradwyo. Mae'r ddau yn caniatáu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys oed meithrin.

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg CSCA

Mae Swyddog y Gymraeg wedi bod yn ei swydd o fis Medi 2023 ac mae'n arwain ar y CSCA ac yn cydlynu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Gallwch weld y CSCA ar wefan Bro Morgannwg yma

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (valeofglamorgan.gov.uk)

Mae'r camau allweddol ar gyfer 2023/24 yn cynnwys:

- Sicrhau cyllid a thendro ar gyfer yr uned drochi yn Ysgol Iolo Morgannwg yn y Bont-faen.
- Recriwtio Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu ar gyfer y Ganolfan Drochi yn Ysgol Gwaun y Nant i gefnogi Arweinydd y ganolfan.

Ym mis Chwefror 2024:

- Mae 15.8% o blant derbyn yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg.
- Ar lefel meithrin, mae 17.8% o blant yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg.
- Mae 330 o leoedd derbyn ar gael mewn 7 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fro gyda 225 o blant yn bresennol ar hyn o bryd. Felly mae 31.8% o gapasiti dros ben.
- Ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae 11.9% o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 14.6%
- Yn 2023/24, trosglwyddodd 95% o ddysgwyr yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r CSCA yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i diweddaru felly rydym wedi gweithio i osgoi dyblygu camau gweithredu sy'n

ymwneud ag addysg Gymraeg ac yn hytrach wedi cydweithio i gyfuno gweithredoedd tebyg.

Cynhaliodd Estyn arolwg ac adroddiad ar wasanaethau addysg a Dysgu a Sgiliau ym mis Chwefror 2024, a oedd yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Dyma ddyfyniad o'r adroddiad am y CSCA ac addysg cyfrwng Cymraeg:

> Mae wedi nodi camau addas i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'n cynyddu'n raddol lleoedd mewn lleoliadau addysg feithrin cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod wedi cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i ddisgyblion ac wedi cyflwyno canolfan addysg Gymraeg sydd wedi gwella darpariaeth ar gyfer plant oed cynradd. Mae cynnydd yr awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â heriau o ran gwella darpariaeth Gymraeg ar draws ei hysgolion ar ei gam cynnar.

Phencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol

Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp Hyrwyddwyr Addysg Gymraeg Rhanbarthol. Yn ogystal, mae Swyddog Addysg Gymraeg y Fro yn eistedd ar y bwrdd llywodraethu. Rydym yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ac yn cymryd rhan yng nghynllun gweithredu'r Hyrwyddwyr. Rydym wedi cyfrannu gwybodaeth ar gyfer adran Bro Morgannwg ar wefan yr Hyrwyddwyr, Cymraeg i Bawb, ac wedi rhoi adborth ar y logo a'r dyluniad.

Darparwyd manylion am ysgolion cyfrwng Cymraeg y Fro i dderbyn baneri am ddim i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.

Fforwm y Fro

Un o lwyddiannau sylweddol eleni yw creu fforwm Cymraeg newydd, Fforwm y Fro. Cynhaliom arolwg o’r aelodau a wahoddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a chawsom

ymatebion cadarnhaol dros ben. Anfonwyd gwahoddiadau ar gyfer y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill 2024.

Mae'r Fforwm yn disodli'r Fforwm Iaith a oedd wedi peidio â chyfarfod. Mae aelodaeth yn cynnwys staff y Cyngor gan gynnwys Swyddog y Gymraeg, y Swyddog Addysg Gymraeg a'r Cydlynydd Cymraeg Gwaith; ysgolion gan gynnwys pob ysgol cyfrwng Cymraeg, Coleg Caerdydd a'r Fro, a'r ganolfan drochi Cymraeg; yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol eraill sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys Menter Bro Morgannwg, Dysgu Cymraeg y Fro, yr Urdd, Merched y Wawr, a'r hyrwyddwr Cymraeg i Bawb rhanbarthol.

Grwpiau eraill

Rydym yn aelod o Grŵp Deddf. Mae hwn yn grŵp rhanbarthol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'n rhoi cyfle i rannu profiadau ac arfer da, a meithrin cysylltiadau ar draws y cynghorau hefyd. Mae'r grŵp wedi cynnal seminarau a chynadleddau gyda chyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn fisol, trwy Teams ac yn bersonol.

Rydym hefyd yn aelod o Rhwydiaith. Mae hwn yn grŵp cenedlaethol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, a sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cyfarfodydd yn llai aml na'r Grŵp Deddf.

Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad o'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg bob blwyddyn. Mae hyn ar ffurf dull 'cwsmer cudd' lle mae swyddog o

swyddfa'r Comisiynydd yn profi ein gwasanaethau Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd: anfon negeseuon e-bost Cymraeg, gwneud galwadau ffôn Cymraeg, cael mynediad at ffurflenni Cymraeg ar-lein, tudalennau recriwtio, a gwirio ystod o dudalennau gwe Cymraeg. Maent hefyd yn gwirio ein negeseuon cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu a marchnata, a'n hunaniaeth gorfforaethol.

Ar ein cais, darparodd Comisiynydd y Gymraeg grynodeb ysgrifenedig o'r canfyddiadau a chafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod yr adolygiad. Gwnaethom yn dda iawn ar y cyfan, ond nodwyd cwpl o feysydd i'w gwella, yn bennaf o fewn recriwtio. Roedd dau fater bach gyda thudalennau gwe a gafodd eu cywiro'n brydlon.

Mae gennym berthynas gadarnhaol gyda'n rheolwr cleientiaid yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn unol â dull cyd-reoleiddio newydd Comisiynydd y Gymraeg, rydym yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiadau hyn ac yn gwerthfawrogi'r canfyddiadau.

Archwilio Mewnol: Safonau’r Iaith Gymraeg

Yn unol â Chynllun Archwilio 2023/24, roedd archwiliad o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Pwrpas yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg mewn perthynas â Safonau’r Gymraeg. Yr amcan cyffredinol oedd rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Roedd yr archwiliad yn edrych ar ddarparu gwybodaeth i staff, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer staff, cydymffurfiaeth cyfieithu, a chadw cofnod o ddewisiadau iaith ar draws cyfarwyddiaethau.

AUDIT OPINION	RECOMMENDATION SUMMARY	
	**High Priority**	0
	Medium Priority	5
	Low Priority	3
	Total	8

REASONABLE ASSURANCE

There is a generally sound system of governance, risk management and control in place. Some issues, non-compliance or scope for improvement were identified which may put at risk the achievement of objectives in the area audited.

Yn unol â Chynllun Archwilio 2023/24, roedd archwiliad o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Pwrpas yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg mewn perthynas â Safonau’r Gymraeg. Yr amcan cyffredinol oedd rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Roedd yr archwiliad yn edrych ar ddarparu gwybodaeth i staff, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer staff, cydymffurfiaeth cyfieithu, a chadw cofnod o ddewisiadau iaith ar draws cyfarwyddiaethau.

Nododd yr archwiliad rai cryfderau allweddol ac arfer da o ran cyfieithu a rheolaethau, sy'n gadarnhaol ac yn cyd-fynd â chanfyddiadau adolygiad Comisiynydd y Gymraeg.

Nodwyd rhai problemau, gan gynnwys:

- Rhai mân wallau gyda thudalennau allanol.
- Nid oedd fersiwn Gymraeg rhai dogfennau mewnol gorfodol wedi ei diweddaru.
- Nid yw 50% o'r staff a arolygwyd sy'n delio â’r cyhoedd yn cofnodi dewis iaith.

O ganlyniad i'r archwiliad, gwnaed rhai argymhellion penodol. Fe wnaethom fynd i'r afael â rhai o'r rhain ar unwaith ac rydym yn parhau i weithio ar eraill, gan sicrhau bod adroddiadau a gwiriadau gweithredu rheolaidd yn cael eu cwblhau.

Y camau nesaf

Wrth symud ymlaen ar gyfer 2024/25, byddwn yn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol:

- Cynyddu nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg ac sy’n cymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg gwaith, er mwyn gwella sgiliau Cymraeg staff.

- Hyrwyddo'r defnydd ar yr Gymraeg ym mhob rhan o’r Cyngor drwy ymgyrch drwyadl a deinamig.

- Codi ymwybyddiaeth o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan Safonau'r Gymraeg drwy ganllaw hawdd ei ddefnyddio a diwygio tudalennau gwe.

- Adolygu ein cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â cham gweithredu 2.13 i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ddiweddaru, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a phryderon ehangach fel y sefyllfa ariannol, Prosiect Sero a lles.

- Parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Dysgu a Sgiliau o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg wrth iddynt adolygu eu dull rheoleiddio.

- Datblygu Fforwm y Fro ymhellach, creu rhwydwaith a chysylltiadau ar draws pob parti a sefydliad sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r Gymraeg.

Cysylltwch â ni

Ymweld â’n wefan www.bromorgannwg.gov.uk/cy
Anfonwch ebost c1v@valeofglamorgan.gov.uk
Ffoniwch 01446 700111